



Rhaglen Ysgoloriaeth


Scholarship
Programme



Coleg Penybont
Bridgend College



CROESO



Mae ein rhaglen ysgoloriaeth wedi'i greu i alluogi talent newydd i ffynnu a dod i'r amlwg, gan ddarparu ehangder o gyfleoedd i alluogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod.

Credwn yn angerddol ni ddylai eich cychwyn chi gorchymyn eich dyfodol; ni ddylai eich tynged fod yn gyfyngedig i ffiniau pobl eraill ac nid yw eich heddiw yn diffinio yfory.

Mae' rhaglen hon wedi'i chynllunio i'ch galluogi i gael mynediad at y meddyliau gorau mewn busnes, wrth ennill hyfforddiant yn y swydd, cyfleoedd helaeth a ariennir i wella eich profiad a'ch sgiliau, hyn i gyd wrth weithio ac ennill cymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a siaradwyr Cymraeg.

Simon Pirotte
Pennaeth a Phrif Weithredwr
Coleg Penybont

DIOLCH AM EICH DIDDORDEB YN EIN RHAGLEN YSGOLORIAETH YNG NGHOLEG PENYBONT.

Rydym yn gweithio gyda mwy na 1000 o gyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n amrywio o fusnesau micro a bach i ganolig i gorfforaethau rhyngwladol.

Yn gyson mae ein partneriaid cyflogwyr yn dweud wrthym eu bod eisiau cyflogwyr hyderus ac ymgysylltiedig sy'n gallu cydweithredu, gwrandao ar eraill a'u parchu. Maent hefyd yn dweud wrthym fod y sgiliau rhyngpersonol hyn yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach na chymhwyster yn unig.

TROSOLWGW O'R ECONOMI

1,848,312

757,050

£24.7k

Poblogaeth (2020)

Tyfodd y boblogaeth gan 51,250 dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagwelir y bydd yn tyfu gan 10,603 dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyfanswm Cyflogaeth Ranbarthol


Tyfodd swyddi 32,775 dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagwelir y byddant yn cynyddu 23,073 dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyfartaledd Cyflog y Swydd (2020)

Mae cyflogau cyfartalog rhanbarthol fesul swydd yn £5.5k yn is na'r cyfartaledd cyflog cenedlaethol o £30.3k y swydd.

Casgliad

O 2020, cynyddodd poblogaeth y rhanbarth 2.9% ers 2015, gan dyfu 51,250. Mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddu 0.6% rhwng 2020 a 2025, gan ychwanegu 10,603.



351,549 Milflwyddwyr
Mae gan yr ardal 351,549 o filflwyddwyr (25-39 oed). Y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ardal o'r maint hwn yw 342,645.

PARTNERIAETHAU CYFLOGWYR

Mae grwpiau cynghori cyflogwyr yn galluogi ein staff i weithio gyda busnesau'n rheolaidd i nodi anghenion a sicrhau bod y cymwysterau rydym yn cynnig yn diwallu anghenion y diwydiant.

Mae pob cangen ysgolheigaidd wedi cael ei noddi gan gyflogwyr sydd mewn partneriaeth â ni i gynnig mentora, cyfleoedd lleoli gwaith a chyllid bwrsariaeth ar gyfer y rhaglen. Mae pob cyflogwr wedi dangos eu hymrwymiad i gefnogi myfyrwyr yng Ngholeg Penybont i uchafu eu potensial a chyflawni ein datganiad cenhadaeth, i 'fod yn bopeth y gallwch fod'.



Crëwyd ein rhaglen ysgoloriaeth i alluogi talent newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i ffynnu, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd i alluogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod.

Y Canghennau

CANGEN 01 ADEILADWAITH	CANGEN 02 CREADIGOL	CANGEN 03 STEM
CANGEN 04 MENYW I ARWEINYDDIAETH	CANGEN 05 IAITH GYMRAEG	CANGEN 06 MENTER A DECHRAU BUSNES

Y RHAGLEN

Fel ysgolhaig yng Ngholeg Penybont, bydd gennych fynediad i'r cyfleoedd rhagorol a fydd yn eich galluogi i ddysgu, cysylltu a chymryd rhan. Yn ogystal ag astudio tuag at y cymhwyster o'ch dewis, bydd prif fentor o fusnes hefyd yn neilltuedig i chi yn ogystal â chyfleoedd profiad gwaith.

Byddwch yn cael cyfle i gael mynediad at weithdai allanol, cynadleddau, digwyddiadau a chystadlaethau, pob un wedi'i gynllunio i helpu i ragori a chyflawni pethau gwych. Byddwch yn rhan o rwydwaith unigryw o ysgolheigion, pob un yn gweithio i wella'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch hyder.

Mae ein rhaglen ysgoloriaeth yn rhedeg yn flynyddol am un flwyddyn academaidd (Medi-Mehefin) ac yn cynnwys y pecyn cymorth canlynol;

- + Mentora un i un gyda busnesau eithriadol
- + Lleoliadau gwaith estynedig gyda noddwr busnes
- + Tanysgrifiad taledig 12 mis i gylchgrawn masnach neu eGyfnodolyn perthnasol
- + Bwrsariaeth £1000 i gefnogi gyda theithiau allanol, ymweliadau, cynadleddau a chystadlaethau
- + Aelodaeth i'n rhwydwaith cyn-fyfyrwyr

Am fwy o wybodaeth ac i weld telerau ac amodau'r rhaglen, ewch i bridgend.ac.uk/scholarships

ADEILADWAITH

Mae crefftau adeiladwaith a diwydiannau cysylltiedig yn rhan o'r deg diwydiant uchaf yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar gyfer galwedigaethau, gyda chrefftau medrus yn cyfrif am fwy na 58,785 o swyddi yn y rhanbarth, y bedwerydd ardal twf sector fwyaf yn 2020*.

Gyda chyflogaeth yn y diwydiant yn y DU yn cyrraedd 2.74 miliwn, ni fu erioed amser gwell i ystyried eich camau nesaf yn y diwydiant adeiladwaith.**

Wedi'i leoli ar ein campws Pencoed, mae ein academi adeiladwaith bwrpasol yn gartref i ystod amrywiol o raglenni o lefel mynediad i addysg uwch, gan gwmpasu disgyblaethau gan gynnwys plymio, gwaith brics a'r amgylchedd adeiledig.

Noddwyr Ysgoloriaeth



RYDYM YN ANGERDDOL am adeiladu bywydau llai cyffredin. Gobeithiwn y bydd cefnogi'r ysgoloriaethau hyn yn darparu cyfleoedd pellach er mwyn i bobl ifanc gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.
Willmott Dixon

58,785 4 YDD 2.74m

Mae crefftau medrus yn cyfrif am fwy na 58,785 o swyddi yn y rhanbarth. Y bedwerydd ardal twf sector fwyaf yn 2020*. Rhagwelir y bydd cyflogaeth y DU yn y diwydiant yn cyrraedd 2.74 miliwn erbyn 2022.





CANGEN 02

CREADIGOL

Gyrfaodd ym myd adloniant a'r celfyddydau yw'r chweched diwydiant sy'n tyfu cyflymaf, gyda mwy na 17,000 o swyddi yn y rhanbarth. Mae'r diwydiant yn tyfu 2.5% yn gyflymach yn y rhanbarth nag ar draws Cymru gyfan ac mae'n un o'r diwydiannau sy'n tyfu cyflymaf yng Nghymru.

Bydd ein partneriaethau cryf â rhai o'r cwmnïau gorau ac arloesol yng Nghymru a'r DU yn darparu lleoliadau gwaith rhagorol, briff prosiect byw a chyfleoedd mentora i'n hysgolheigion.

Bydd angen i unigolion sydd â diddordeb mewn ymgeisio am un o'r cyfleoedd ysgolheigaidd yn y gangen hon hefyd fod yn astudio llwybr cymhwyster creadigol perthnasol.

Noddwyr Ysgoloriaeth



RYDYM YN FALCH i fod yn cefnogi'r rhaglen ysgolheigaidd gan y bydd yn creu cyfleoedd gwyb ar gyfer pobl ifanc ar draws ystod o ddiwydiannau cyffrous a llewyrchus. Gwasanaethau Theatrig Caerdydd

17,000

2.5%

Mae gyrfaodd mewn adloniant a'r celfyddydau'n cyfrif am fwy na 17,000 o swyddi yn y rhanbarth.

Mae'r diwydiant yn tyfu 2.5% yn gyflymach yn y rhanbarth nag ar draws Cymru gyfan.



CANGEN 03

STEM Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg

Fe wnaethom agor y drysau i'n Hacademi STEAM gwerth £30m (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Celfyddydau Digidol a Mathemateg) ar ein campws ym Mhen-coed ym mis Medi 2021. Ewch i bridgend.ac.uk/STEAM i ddarganfod mwy.

Pynciau sy'n gysylltiedig â STEM yw'r ail ddiwydiant mwyaf yn y rhanbarth a dyma'r maes mwyaf o dwf cyflogaeth. Galwedigaethau archwilio a chyfrifeg yw'r sgiliau o'r galw uchaf yn y rhanbarth, gyda'r galw yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Bydd y gangen ysgolheigaidd hon yn darparu cyfleoedd dysgu a phrofiadau yn yr amgylchedd pwrpasol hwn, ynghyd â mynediad at rai o'r busnesau mwyaf arloesol a dylanwadol yn y DU. Bydd ein partner adeiladwaith, ISG yn darparu cyfleoedd gwaith a mentora cyffrous fel rhan o'r gangen ysgolheigaidd hon, gan roi mynediad ichi at dechnegau dylunio a pheirianeg arloesol. Bydd ein partner adeiladu, ISG, yn darparu lleoliadau gwaith cyffrous a chyfleoedd mentora fel rhan o'r cangen ysgolheigaidd hwn, gan roi mynediad i chi at y technegau dylunio a pheirianeg diweddaraf.

Noddwyr Ysgoloriaeth



£30m

2^{IL}

+/-=

Rydym ar hyn o bryd yn adeiladu Academi STEAM o'r radd flaenaf gwerth £30m.

Pynciau sy'n gysylltiedig â STEM yw'r ail ddiwydiant mwyaf yn y rhanbarth.

Galwedigaethau archwilio a chyfrifeg yw'r sgiliau o'r galw uchaf yn y rhanbarth.

MENYW I ARWEINYDDIAETH

Mae cymunedau a gweithluoedd amrywiol yn cyfrannu amrywiaeth o sgiliau gwahanol, gan dynnu ar ystod ehangach o brofiadau a safbwyntiau.

Mae tua 35% o reolwyr yn y DU yn fenywod, a dim ond 20.2% o swyddogion gweithredol mewn cwmnïau sydd wedi'u rhestru'n gyhoeddus yn Ewrop yn fenywod, gan ostwng i ddim ond 7.8% o fenywod mewn rolau Prif Weithredwr.

Rydym wedi ymrwmo i greu a chefnogi amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant yn ei holl ffurfiau ac annog unigolion sy'n uniaethu fel hylif rhyw, trawsryweddol neu cisgender i wneud cais.

Noddwyr Ysgoloriaeth



35%

Mae 35% o reolwyr yn y DU yn fenywod.

20.2% 7.8%

O swyddogion gweithredol mewn cwmnïau sydd wedi'u rhestru'n gyhoeddus yn Ewrop yn fenywod.

O fenywod mewn rolau Prif Weithredwr.



IAITH GYMRAEG

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd iaith Gymraeg i bob dysgwr a dathlu diwylliant a threftadaeth Gymraeg amrywiol. Fel rhan o'n hymrwymiad arddangosadwy i gynllun uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rydym yn falch o fod yn bartner gyda nifer o noddwyr busnes sy'n cyflwyno dulliau arloesol o alluogi iaith a diwylliant Cymru i ffynnu.

Mae galw mawr am Gymraeg a sgiliau ieithyddol yng Nghymru ac ar draws y byd, gydag unigolion sy'n gallu sgwrsio mewn Cymraeg yn ennill tua 9% yn fwy na siaradwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg, a'r rhai sy'n gallu darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ennill 11% yn fwy[^].

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf y Gymraeg a'r safonau iaith Gymraeg i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG, yr Heddlu, Prifysgolion a Cholegau ddarparu gwasanaethau rheng flaen trwy gyfrwng y Gymraeg, gan wneud eich sgiliau iaith Gymraeg yn fwy gwerthfawr ac yn destun galw mawr nag erioed o'r blaen.

Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg rhugl neu wedi mynychu addysg uwchradd Gymraeg, byddem yn eich annog i wneud cais am y gangen ysgolheigaidd hon.

Noddwyr Ysgoloriaeth



9%

1 MILIWN 11%

Mae siaradwyr Cymraeg yn ennill tua 9% yn fwy na siaradwyr sydd ddim.

Uchelgeis Llywodraeth Cymru yw i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y rhai sy'n gallu darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ennill 11% yn fwy.



MENTER A DECHRAU BUSNES

Amcangyfrifwyd bod 267,000 o fentrau yn weithredol yng Nghymru, yr amcangyfrif uchaf ers dechrau 2003, gan gyflogi tua 1.2 miliwn o bobl. Roedd busnesau bach a chanolig (BBaCh) yng Nghymru yn cyfrif am 62.4% o gyflogaeth a 37.9% o drosiant.†

Fel coleg, ein nod yw annog dysgwyr i ystyried cychwyn busnes fel dewis gwirioneddol ac opsiwn cyfartal ochr yn ochr â llwybrau gyrfa eraill. Yn bwysicach fyth, ein nod yw datblygu sgiliau entrepreneuriaidd sy'n ddefnyddiol ar gyfer y gweithgaredd uniongyrchol hwn, neu ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol yn gyffredinol.

Noddwyr Ysgoloriaeth



MAE'R YSGOLORIAETH MENTER A DECHRAU BUSNES yn cydnabod pwysigrwydd cefnogaeth gychwynnol i lwyddiant busnes yn y dyfodol ac mae wedi'i gynllunio i arwain dysgwr Coleg Penybont i gymryd y camau cyntaf ar eu taith entrepreneuriaidd.

267,000

Amcangyfrifir bod 267,000 o fentrau'n weithredol yng Nghymru, yr amcangyfrif uchaf ers dechrau 2003.

1.2m

pobl a gyflogir gan fentrau yng Nghymru.

62.4%

Roedd busnesau bach a chanolig (BBaCh) yng Nghymru yn cyfrif am 62.4%.



GWYBODAETH BELLACH

LLINELL AMSER CAIS

Medi – Tachwedd
Mynegiadau o ddiddordeb yn agor



Ebrill

Gwahoddir mynegiadau o ddiddordeb i
noson wybodaeth
Ceisiadau Cam 2 yn agor



Mai

Ceisiadau Cam 2 yn cau
Panel yn cyfarfod i adolygu a
llunio rhestr fer o'r ceisiadau
Penderfyniadau wedi'u rhyddhau



Mehefin
Cyfweiliadau
Cynigion



Awst

Digwyddiad croeso, cyflwyniad i'r mentor,
sefydlu tanysgrifiad a chofrestru

I ddarganfod mwy am ein rhaglen
ysgoloriaeth ac i weld telerau ac amodau
y rhaglen, ewch i

bridgend.ac.uk/scholarships
scholarship@bridgend.ac.uk
01656 302 302

*Darperir yr holl ddata gan EMSI Economic Modeling 2020. Mae'r holl ddata yn cynrychioli'r canlynol fel 'rhanbarth' cyfan

**<https://careerswales.gov.wales/job-information/industry/construction-and-property>

+Catalydd: Menywod mewn Rheolaeth <https://www.catalyst.org/research/women-in-management/>

^Gyrfaoedd Cymru (<https://www.careerswales.com/en/tools-and-resources/dewis-da-why-choose-welsh/advantages-of-being-bilingual/3-increase-your-earning-potential/>)

†<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf>